EA-WATER RESOURCES BOX 10
QUALITY

FILE COPY
Please do not remove

Briefing Note

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

# The Land-Use Planning System and the Water Framework Directive

The Water Framework Directive (The Directive) will have implications for Land-Use Planning (LUP) in England and Wales. This Brief gives our current understanding and position with regard to some of the key issues.

### *Key Issues*

- A clear and statutory interface between land-use planning and River Basin Planning (RBP) is critical for the successful implementation of the Directive.
- The Agency believes that good integration between LUP and water management and protection offers the benefit of substantially reducing the regulatory impact of the Directive.
- The LUP system, and the ability for economic and social impacts to be balanced against environmental impacts in the plan making and assessment processes, should enable it to play a key role in achieving the objectives of the Directive.
- There is an opportunity for the Agency, Welsh Assembly Government, the Department for Environment, Food and Rural Affairs (Defra), and Office of the Deputy Prime Minister (ODPM) to identify efficient mechanisms for delivering the Directive.

### *The WFD and land-use planning*

The approach taken by the Directive means that all activities in a River Basin District that result in a significant pressure or impact on the water environment will be identified through River Basin Characterisation. They will then be considered through River Basin Planning, and, where necessary, managed via a Programme of Measures to achieve the objectives of the Directive. The effective protection of the water environment as required by the Directive, cannot be achieved by the institutions of water management alone. This is explicitly recognised in the European Union guidance document on the River Basin Planning process.

The development and management of land results in a range of pressures and impacts on the water environment. Therefore, a key element of ensuring successful implementation will be dependent on the establishment of appropriate and consistent links between the Directive and the land-use planning system in England and Wales.

There is an opportunity therefore, to use the Directive to develop the current relationship between land-use and water management in England and Wales to ensure that it is robust and consistent enough to help achieve the aims and objectives of the Directive. It would also serve to further the government's recent proposals for the development of new sustainable communities.

Environment Agency, Rio House, Waterside Drive, Aztec West, Almondsbury, Bristol BS32 4UD
Tel: 01454 624 400 www.environment-agency.gov.uk

Additionally, community involvement in the land-use planning system provides an opportunity to deliver an element of the public participation requirements of the Directive.

The integrated spatial planning and high quality design of new development can help protect and in some cases lead to the restoration of quality, quantity and physical feature aspects of the water environment. These positive impacts can be linked to remediation of contaminated land and hence improvements to ground and surface water quality, river habitat restoration, flood plain restoration, water-use efficiency, and protection of natural eco-systems.

## *Incorporating the requirements of the Directive into land-use planning*

In order to help meet the requirements of the Directive the Agency's proposal would be to use:

- **Secondary legislation** - regulation needs to be developed by both the ODPM (to elaborate on the Planning and Compulsory Purchase Bill and specify the new land-use planning system) and Defra (to transpose the Directive). In Wales, similar regulation will need to be developed with the Welsh Assembly Government.
- **Guidance** - for England, consideration should be given to the production of a Planning Policy Statement (PPS) on water issues. The Welsh Assembly Government has already identified the need for a new Technical Advice Note relating to Water Resources issues.
- **Revision of the General Development Procedures Order** - to provide a widened and strengthened statutory consultee role.
- **Appropriate implementation of the Strategic Environmental Assessment Directive** – a statutory process of environmental assessment of land-use plans will provide an important vehicle to deliver Directive driven objectives.

## *Changes to the Agency Planning function*

The Agency recently completed a review of how it interfaces with the land use planning system and its priorities. Key changes that are relevant are:

- A move away from responding to consultations on planning applications to influencing the system at the policy formulation stage;
- Use of standing advice to help local authorities deal with lower risk planning applications, allowing the Agency to concentrate its resources on responding to higher risk applications.
- The establishment of Regional Support Units whose remit is to engage with the planning system at the regional level.

This change in approach compliments the opportunities provided by external Strategic Environmental Assessments of land use plans and will aid implementation of the Directive by concentrating efforts on higher risk development and strategic planning issues.

**For further information, please contact:**
Isobel Austin, Environment Agency, Water Framework Directive Communications Project
Tel: 01491 828520 Email: isobel.austin@environment-agency.gov.uk

Version 1 - July 2003

HO/12.03/100/BHSM/kk/WM 138 - Printwyd ar / Printed on Cyclus Print

ENVIRONMENT AGENCY

Bydd cynllunio gofodol integ[illegible] n datblygiad newydd yn gallu helpu i ddiogelu ac, ar brydiau, i arwain at adfer ansawdd, maint a nodweddion ffisegol yr amgylchedd dyfrol. Gellir cysylltu'r effeithiau cadarnhaol hyn ag adfer tir wedi'i halogi a thrwy hynny â gwella ansawdd d_r daear a d_r wyneb, adnewyddu cynefinoedd afonydd, adnewyddu gorlifdiroedd, defnyddio d_r mewn modd effeithlon, a diogelu ecosystemau naturiol.

## *Cynnwys gofynion y Gyfarwyddeb yn rhan o gynllunio'r defnydd ar dir*

Er mwyn cynorthwyo i gael cwrdd â gofynion y Gyfarwyddeb, bwriad yr Asiantaeth fyddai defnyddio:

- **Deddfwriaeth eilaidd** - mae angen i'r rheoleiddio gael ei ddatblygu gan yr SDBW (i ymhelaethu ar y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol gan gyfeirio'n benodol at y system gynllunio defnydd ar dir newydd) a Defra (i newid y Gyfarwyddeb). Yng Nghymru bydd angen datblygu rheoleiddio cyffelyb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- **Cyfarwyddyd** - o safbwynt Lloegr, dylid rhoi ystyriaeth i lunio Datganiad Polisi Cynllunio (DPC) ar faterion d_r. Adnabuwyd yr angen am gael Nodyn Cyngor Technegol newydd o safbwynt materion Adnoddau D_r gan Lywodraeth Cynulliad Cymru eisoes.
- **Adolygu'r Gorchymyn Gweithdrefnau Datblygu Cyffredinol** - ter cynnig rôl ymgynghoredigol statudol ehangach a chryfach.
- **Gweithredu'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol mewn modd priodol** – proses statudol o asesu amgylcheddol ar gynlluniau'r defnydd ar dir a fydd yn gyfrwng pwysig er cyflawni amcanion a yrrir gan y Gyfarwyddeb.

## *Newidiadau yn swyddogaeth Gynllunio'r Asiantaeth*

Yn ddiweddar cwblhawyd adolygiad gan yr Asiantaeth ar sut y bydd yn rhyngwynebu gyda'r system o gynllunio'r defnydd ar dir a'i blaenoriaethau. Ymhlith y newidiadau allweddol sy'n berthnasol mae:

- Symud oddi wrth ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio at ddylanwadu ar y system yn y cyfnod ffurfio polisi;
- Defnyddio cyngor sefydlog i helpu awdurdodau lleol i ddelio â cheisiadau cynllunio â llai o risg, gan alluogi'r Asiantaeth i gyfeirio'i hadnoddau i ymateb i geisiadau â mwy o risg;
- Sefydlu Unedau Cynorthwyo Rhanbarthol a'u cylch gwaith fydd gweithio gyda'r system gynllunio ar lefel ranbarthol.

Mae'r newid agwedd hwn yn cydfynd â'r cyfleoedd a ddarperir gan Asesiadau Amgylcheddol Strategol allanol ar gynlluniau'r defnydd ar dir a byddant yn gymorth i'r gwaith o weithredu'r Gyfarwyddeb drwy ganolbwyntio ymdrechion ar faterion cynllunio strategol a datblygiadau â mwy o risg.

**Am wybodaeth bellach, cysylltwch os gwelwch yn dda â:**
Isobel Austin, Asiantaeth yr Amgylchedd, Prosiect Cyfathrebu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr
Ffôn: 01491 828520 Ebost: isobel.austin@environment-agency.gov.uk

Fersiwn 1- Gorffennaf 2003

Nodyn Briffio

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

# Y System o Gynllunio'r Defnydd ar Dir a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Bydd i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Y Gyfarwyddeb) oblygiadau o safbwynt Cynllunio'r Defnydd ar Dir (CDD) yng Nghymru a Lloegr. Yn y Briff hwn ceir ein dealltwriaeth a'n safbwynt presennol parthed rhai o'r materion allweddol.

### *Materion allweddol*

- Mae'n hollbwysig bod rhyngwyneb clir a statudol rhwng cynllunio'r defnydd ar dir a Chynllunio Rheoli Basn Afon (CRhBA) er sicrhau gweithredu'r Gyfarwyddeb yn llwyddiannus.
- Mae'r Asiantaeth yn credu bod integreiddio da rhwng CDD a rheoli a diogelu dŵr yn beth buddiol am ei fod yn torri i lawr yn sylweddol ar effaith reoleiddiol y Gyfarwyddeb.
- Dylai'r system CDD, a'r ffaith y gall effeithiau economaidd a chymdeithasol gael eu cydbwyso ag effeithiau amgylcheddol yn y prosesau cynllunio ac asesu, ei alluogi i fod â rhan allweddol er cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb.
- Mae cyfle i'r Asiantaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (SDBW) adnabod mecanwaith effeithlon er gweithredu'r Gyfarwyddeb.

### *Y CFfD a chynllunio'r defnydd ar dir*

Mae'r agwedd a gymerir gan y Gyfarwyddeb yn golygu y caiff yr holl weithgareddau mewn Ardal Basn Afon a fydd yn arwain at bwysau neu effaith sylweddol ar yr amgylchedd dyfrol eu hadnabod drwy Gymeriadu Basn Afon. Yna cânt eu hystyried drwy Gynllunio Basn Afon a, lle bo raid, eu rheoli drwy gyfrwng Rhaglen o Gamau er cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb. Ni ellir diogelu'r amgylchedd dyfrol yn effeithiol yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb gan y sefydliadau rheoli dŵr yn unig. Cydnabyddir hyn yn benodol yn nogfen gyfarwyddyd yr Undeb Ewropeaidd ar y broses o Gynllunio Basn Afon.

Bydd datblygu a rheoli tir yn esgor ar amrediad o bwysau ac effeithiau ar yr amgylchedd dyfrol. Felly, bydd elfen allweddol yn y broses o sicrhau gweithredu llwyddiannus yn dibynnu ar sefydlu cysylltiadau priodol a chyson rhwng y Gyfarwyddeb a'r system o gynllunio'r defnydd ar dir yng Nghymru a Lloegr.

Mae cyfle felly i ddefnyddio'r Gyfarwyddeb er datblygu'r berthynas sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng rheoli dŵr a'r defnydd ar dir yng Nghymru a Lloegr er sicrhau ei bod yn gadarn ac yn ddigon cyson i gael helpu i gyflawni nodau ac amcanion y Gyfarwyddeb. Byddai hefyd yn fodd i hyrwyddo cynlluniau diweddar y llywodraeth ar gyfer datblygu cymunedau cynaliadwy newydd.

Ar ben hyn, bydd ymgyfraniad cymunedol yn y system o gynllunio'r defnydd ar dir yn cynnig cyfle i gael gweithredu'r elfennau hynny o ymgyfraniad y cyhoedd sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb. deliver an element of the public participation requirements of the Directive.